



STAND ABER

Arweiniad i Ymgyrchu mewn Etholiadau!

Llongyfarchiadau am sefyll yn yr etholiadau; gall rhedeg ymgyrch ymddangos fel profiad brawychus, ond rydyn ni'n gobeithio y bydd y cyngor sydd yn y llyfryn hwn o ddefnydd i chi ac y bydd o gymorth i dawelu eich meddwl. Dylai'r hintiau handi hyn eich helpu i gynllunio ymgyrch sy'n mynd i fod yn effeithiol, ond cofiwch mai dim ond canllawiau ydy'r rhain, yn seiliedig ar yr hyn mae ymgeiswyr y gorffennol wedi ei gael yn ddefnyddiol. Does mo'r fath beth â 'fformiwla hud' ar gyfer ennill ymgyrch! Cofiwch wneud eich ymgyrch yn unigryw; byddwch yn ddewr a rhowch gynnig ar bethau newydd! Meddyliwch amdano fel prosiect; cynlluniwch yn ofalus a manteisiwch ar eich cryfderau.

Peidiwch â gofidio os ydych chi'n teimlo nad oes gennych chi unrhyw beth wedi'i baratoi, ond gwnewch y gorau o'r wythnos nesaf a cheisiwch gael cymaint â phosib wedi'i wneud yn gynnar. Wedyn, pan fydd pleidleisio'n agor, gallwch ganolbwyntio ar fynd allan a siarad â myfyrwyr.

Cofiwch gadw at y rheolau; nid yw werth y risg o gael eich gwahardd. Os ydych chi'n gweld rhywun yn torri'r rheolau, gwnewch yn sicr eich bod yn rhoi gwybod i'r swyddog etholiadau cynted â phosib. Dylai fod yn etholiad rhydd a theg.

Pob lwc!



Y Brifysgol a Dyddiadau Cau

Rydyn ni'n argymhell yn gryf eich bod chi'n cwblhau eich holl waith Prifysgol CYN i'r pleidleisio ddechrau, fel y gallwch flaenoriaethu eich ymgyrch. Ceisiwch gynllunio hyn yn ofalus, gan y gall ceisio gorffen gwaith pwysig ar yr un pryd ag ymgyrchu beri cryn bwysedd a thyndra diangen.

Gwaith Gorfodol y Brifysgol - Os oes gennych chi sesiwn labordy neu amser gorfodol arall, penderfynwch a fyddwch yn mynychu'r rhain yn ystod yr etholiad. Nid yw ymgeisio mewn etholiad yn Undeb y Myfyrwyr yn perthyn i gategori Amgylchiadau Arbennig, felly mae'n bwysig gofyn am ganiatâd os ydych chi'n bwriadu ymgyrchu yn hytrach na mynychu sesiwn yn y Brifysgol. Rydyn ni'n eich cynghori i roi gwybod i'ch goruchwyliwr neu diwtor eich bod yn cymryd rhan yn yr etholiad. Gallwch gynnwys y Dirprwy Swyddog Etholiadau (undeb.etholiadau@aber.ac.uk) yn eich e-byst, a byddwn yn gallu cadarnhau eich bod yn ymgeisydd.

Tîm Ymgyrchu

Yn gyntaf, mae'n bwysig peidio gofidio os nad oes gennych chi dîm ymgyrchu - mae rhai pobl yn ennill ac yn cael nifer uchel o bleidleisiau heb unrhyw help, os ydyn nhw'n cynllunio eu hymgyrch yn dda. Serch hynny, mae'n syniad da ceisio cael hyd i bobl sy'n fodlon gweithio gyda chi os gallwch chi wneud hynny.

Ffurfiwch grŵp Facebook gyda ffrindiau rydych chi'n meddwl fyddai'n fodlon helpu. Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n cyfranogi, byddan nhw'n gweld eich pyst o hyd, yn lledaenu'r gair, neu o leiaf yn meddwl am bleidleisio drosoch chi. Os oes gennych chi ffrind agos sy'n awyddus i helpu, efallai y gallen nhw redeg eich ymgyrch ar eich rhan, ond nid yw hyn yn hanfodol bwysig.

Bydd adegau pan fyddwch chi'n teimlo fel rhoi'r ffidil yn y to, a nhw fydd y person fydd yn eich annog i ddal ati. Os nad oes gennych chi ffrind i ymgyrchu gyda chi, ceisiwch wneud ffrindiau â rhywun arall sy'n ymgyrchu a chydweithiwch â nhw am y diwrnod/wythnos - beth am gymryd egwyl am deisen gyda'ch gilydd, yn rhithwir wrth gwrs?

Os ydych chi'n llwyddo i gael tîm at ei gilydd, meddyliwch am eu cryfderau a beth fyddan nhw hapusaf yn ei wneud - mae tîm hapus yn dîm cynhyrchiol! Peidiwch â cheisio gorfodi eich ffrind swil i anfon negeseuon at gymdeithasau nad ydynt yn gyfarwydd â nhw, neu os oes gennych chi ffrind sydd ar ei orau ar ôl iddi nosi, efallai y byddan nhw'n gallu eich helpu ar fin-nos. Dyma rai rolau y gallech chi feddwl amdany'n nhw:

- **Yr Artist** – oes gennych chi ffrind artistig neu greadigol a allai eich helpu i ddylunio poster, gwneud crysau-T neu baentio baner?
- **Yr un Brwdfrydig** - oes gennych chi ffrind sy'n awyddus i gyfranogi yn yr holl ymgyrch? Gall y person yma fod yn rheolwr ymgyrch, gan eich helpu i bennu cyfrifoldebau a mynd ati i gynllunio.
- **Yr Un sy'n caru TikTok** - oes gennych chi ffrind a allai ddawnsio'r *renegade* yn eu cwsg neu'n gwybod holl eiriau *Driving Licence*? Beth am feddwl am ffyrdd o ddefnyddio'r ap hwn yn oes ymgyrchoedd ar-lein?
- **Yr un sy'n byw ar Heol y Bont, Heol Portland neu yn Fferm Penglais** - os oes gennych chi ffrindiau sy'n byw mewn ardaloedd lle mae llawer o fyfyrwyr yn byw, gallech chi e-bostio copiâu o bosteri iddynt i'w gosod yn eu ffenestri, neu hyd oed trefnu sesiwn rithwir ar gyfer gwneud baneri, a gofyn iddynt i'w gosod ar y giât o flaen eu tai.



- **Y Dewin Digidol** - oes gennych chi ffrind sy'n meddu ar y sgiliau i'ch helpu i wneud fideo ymgyrchu, i ddylunio posterï neu faner Facebook a llun proffil sy'n gweddu i'ch brand?
- **Yr un sy'n gaeth i Gyfryngau Cymdeithasol** - bydd cyfryngau cymdeithasol yn bwysicach nag erioed eleni, a gallwch ysgrifennu ac amseru eich holl byst ymlaen llaw; efallai y byddwch am ddefnyddio rhywfaint o'ch cyllideb i hybu pyst ar Facebook. Gall hyn fod yn dipyn o her, ond efallai bod gennych chi ffrind fyddai'n gallu dangos i chi sut mae gwneud hyn? Cymerwch gipolwg ar later.com a Canva.com - mae'r ddau yma am ddim i'w defnyddio.
- **Y Rhiant** - gall fod yn anodd cynnal eich cymhelliant; efallai bod gennych chi ffrind gofalgar a all fod wrth law ar adegau i godi eich ysbryd a'ch atgoffa bod angen cwsg arnoch.
- **Y Cogydd** - oes unrhyw obaith y gallai un o'ch cyd-letywyr, neu rywun o fewn eich swigen, goginio ar eich cyfer ar fin-nos yn ystod y cyfnod pleidleisio? Mae'n bwysig eich bod chi'n cofio bwyta, a bydd gwybod bod gennych chi amser am fwyd a sgwrs â ffrind bob dydd o help i chi ddal ati! Ystyriwch hefyd baratoi bwyd ar gyfer yr wythnos, fel bod popeth yn barod yn y rhewgell.

Brandio a Dylunio


Mae creu brand cryf, syml a chofiadwy'n bwysig dros ben. Rydych chi angen i rywun weld eich posterï, fideos a'ch tîm ymgyrch, a'u cysylltu nhw â'i gilydd. Ceisiwch greu eich ymgyrch o amgylch rhywbeth sy'n hwy! Bydd pobl sy'n malio dim am yr Undeb yn cofio'r person sydd â brand cryf a pharhaus.

Mae sloganau a chwarae ar eiriau'n gallu gweithio'n dda, ond gwnewch yn sicr ei fod yn gwneud synnwyr; peidiwch â gofidio gormod os na allwch chi ddod o hyd i un sy'n gweddu i'ch enw chi, dydy pawb ddim yn defnyddio slogan, ac maen nhw'n dal i allu rhedeg ymgyrch hynod o lwyddiannus. Meddyliwch am ddefnyddio un lliw syml, a gwnewch yn sicr bod eich enw'n cael ei weld gan bobl, fel y byddant yn ei gofio.

Wrth fynd ati i ddylunio, dylai fod gennych chi nifer o asedau allweddol. Y rhain yw:

- **Baner ar gyfer Facebook** – gwnewch yn sicr eich bod yn cynnwys eich enw llawn, y rôl rydych chi'n ymgeisio amdani a llun. Hefyd gwnewch yn sicr nad yw eich 'Llun Proffil' yn gorchuddio'r elfennau allweddol. Efallai gallech chi ddarbwylllo rhai o'ch ffrindiau i newid eu llun clawr i hwn.





- **Poster** – (A4-A3) sicrhewch fod eich enw a'r rôl rydych chi'n mynd amdani ar eich poster, fel y bydd pobl yn gallu gweld hynny ar unwaith a chofio'r wybodaeth allweddol amdanoch chi. Cadwch y dyluniad mor syml â phosib. Ceisiwch sicrhau bod hwn yn edrych yn dda ac yn drawiadol. Gallech feddwl am hyd at 3 o brif bwyntiau maniffesto, os ydyn nhw'n fyr.

Cyfryngau Cymdeithasol

Bydd cyfryngau cymdeithasol yn un o elfennau pwysicaf eich ymgyrch yn 2021. Mae'n bwysig bod â phresenoldeb cryf, ond peidiwch ag anghofio y gellir cynllunio a threfnu 90% o'ch cyfryngau cymdeithasol cyn i'r bleidlais agor hyd yn oed.

- **Tudalen Facebook** – Gallwch ddefnyddio cod 'gwahodd pawb' i wahodd cynifer o bobl â phosib, gan gynnwys ffrindiau sydd ddim yn fyfyrwyr Aberystwyth; gorau po fwyaf o bobl gewch chi i hoffi eich tudalen! Ceisiwch annog cymaint o'ch ffrindiau â phosib i wneud hyn yn ogystal. Dylech fod yn postio'n rheolaidd ar y dudalen hon gydol eich ymgyrch, gyda'r diweddaraf ar yr hyn rydych chi'n ei wneud a.y.b. Ond cofiwch nad yw cyfanswm y nifer o bobl sy'n hoffi'r dudalen o reidrwydd yn golygu'r nifer hwnnw o bleidleisiau. Mae tudalennau'n ddefnyddiol ar gyfer lledaenu eich brand, felly gwnewch eich pyst yn rhyngweithiol, yn ddiddorol, a phostiwch nhw ar yr adegau brig. Mae pyst sy'n cynnwys delweddau neu fideos yn fwy tebygol o ddenu cynulleidfa ehangach, felly meddyliwch am gynnwys delwedd syml o'ch poster, neu efallai llun ohonoch chi a'ch tîm wrthi'n ymgyrchu ar y campws.
- **Digwyddiad Facebook** - mae rhai pobl yn creu digwyddiad 'Pleidleisiwch dros [enw]' ac yn gwahodd eu holl ffrindiau ym Mhrifysgol Aberystwyth i ymuno. Fe allech chi wneud i 'amser' y digwyddiad bara trwy gydol y cyfnod pleidleisio; bydd hyn yn atgoffa pobl i bleidleisio yn ogystal â lledaenu'ch brand ychydig ymhellach.
- **Fframiau Facebook** - beth am greu ffrâm i bobl ei defnyddio ar eu llun proffil i ddangos cefnogaeth "Rwy'n pleidleisio dros ..."
- **Straeon Facebook ac Instagram** - beth am ddefnyddio'r teclyn Holi ac Ateb neu greu cwis amdanoch chi? Yn aml mae straeon yn denu mwy o sylw na physt, felly peidiwch ag anghofio defnyddio'r adnodd hwn.



- **Memes** - mae pawb wrth eu bodd â chwerthin, yn enwedig yn Aber; sut allwch chi wneud eich ymgyrch yn un y gall pobl uniaethu â hi a'i chael yn ddiddorol?
- **Tudalen Instagram** - ceisiwch ddefnyddio'r un brandio ar draws eich llwyfannau cyfryngau cymdeithasol; mae gan lawer o glybiau a chymdeithasau dudalennau Instagram gweithredol, peidiwch ag anghofio bod yn rhagweithiol ac estyn allan atynt
- **Ffrydio byw** - Gallwch chi ffrydio'n fyw ar ystod eang o lwyfannau fel Facebook ac Instragram; fe allech chi ystyried cynnal sesiwn Holi ac Ateb neu ddiwyddiad rhithwir
- **Twitter** - Peidiwch â rhoi gormod o ffydd ym mhŵer Twitter i ddylanwadu ar etholiad, ond gallai fod yn ddefnyddiol bod â rhywfaint o bresenoldeb. Fe allech chi greu hashnod neu anfon negeseuon trydar gan ddefnyddio hashnodau sy'n boblogaidd yn Aberystwyth. Rydym fel arfer yn gweld mai ôl-raddedigon ac adrannau sy'n defnyddio Twitter fwyaf.
- **Amylgrwydd** - Meddyliwch am ffyrdd y gellir tagio eich ffrindiau, gan y bydd hyn yn dod â'ch tudalen i'r amlwg gan felly gyrraedd mwy o bobl. Mae creu albwm lluniau'n ffordd dda o wneud hyn - gallech gael llwyth o'ch ffrindiau i ddal eich poster ar alwad Zoom yn dweud "Dwi'n pleidleisio dros...", neu arwydd mwy creadigol (sy'n cynnwys er enghraifft: mwstas / sacsoffôn / swigod sgwrs cardfwrdd) a'u tagio nhw mewn albwm ar eich tudalen gyda chyfarwyddiadau pleidleisio yn y disgrifiad o'r albwm.
- **Hybu pyst** - Os ydych chi'n creu fideo neu byst mawr eraill, mae'n werth neilltuo rhywfaint o arian o'ch cyllideb ymgyrchu ar gyfer hyrwyddo'r rhain i bobl sy'n hoffi eich tudalen a ffrindiau ar Facebook. Mae manylion pellach ynglŷn â sut i wneud hyn ar ddiwedd y canllaw hwn.
- **Cystadlaethau Hoffi a Rhannu** – Mae hwn yn syniad mwy creadigol a rhyngweithiol; gallech chi wario rhywfaint o'ch arian ar wobrau bach a'u defnyddio nhw fel cymhellant i bobl hoffi a rhannu eich cynnwys.
- **Fideo** - does dim llawer o ddiwylliant gwneud fideos ym Mhrifysgol Aberystwyth fel sy'n bodoli mewn rhai sefydliadau eraill, ond mae'n rhywbeth y gallech chi ei wneud os ydych chi'n teimlo'n hyderus, a bod gennych chi'r amser a'r adnoddau i baratoi. Pan fyddant wedi gwneud yn dda gallant fod yn effeithiol! Fel gydag unrhyw beth, gwnewch yn sicr ei fod yn ffitio i mewn â gweddill y brandio ar gyfer eich ymgyrch. Gallwch fwrw golwg ar yr hyn mae pobl wedi'i wneud mewn Undebau Myfyrwyr eraill am syniadau, ond peidiwch â disgwyl creu campwaith chwaith!
- **Negeseuon unigol ar Facebook** – gallwch anfon negeseuon unigol i bobl ar Facebook; gall fod yn syniad gofyn i rywun arall wneud hyn os nad oes gennych chi'r amser. Anfonwch allan neges wedi'i hysgrifennu ymlaen llaw ynglŷn â'ch ymgyrch a sut i bleidleisio at eich holl ffrindiau ar Facebook ac yn Aberystwyth, gan ofyn iddyn nhw rannu post a phleidleisio drosoch chi.
- **Darlledu ar Whatsapp** - Y dull wedi'i bersonoli yn aml yw'r mwyaf cofiadwy! Gallwch hefyd ddefnyddio'r ddyfais ddarlledu ar Whatsapp sy'n anfon neges destun at grŵp mawr o bobl; pan fyddant yn derbyn y neges bydd yn ymddangos ei bod wedi cael ei hanfon atynt fel unigolion.



- **Pyst mewn grwpiau a rhestrau gohebiaeth** - gallwch bostio mewn unrhyw grŵp Facebook rydych chi'n aelod ohono; gallwch hefyd ofyn am gael ymuno â grwpiau newydd a phostio yno, ond efallai y byddai'n syniad da i chi ofyn am ganiatâd gan weinyddwr yn gyntaf, neu mae'n bosib y caiff eich post ei ddileu. Chewch chi ddim defnyddio rhestr e-bost mae gennych chi fynediad iddi oherwydd safle breintiedig (e.e. fel cynrychiolydd academiaidd neu aelod o bwyllgor grŵp), ond gallech chi wastad ofyn i gyn gynrychiolydd neu aelod arall o'r grŵp i anfon rhywbeth allan ar eich rhan, gan fod hwn yn gyfle sy'n agored i bawb.

Cyhoeddusrwydd

"Fe ddarllenais eu maniffesto" yw'r rheswm pennaf gan bleidleiswyr dros ddewis ymgeisydd mewn etholiad, felly mae'n bwysig treulio amser yn ysgrifennu ac ateb y cwestiynau cyhoeddusrwydd yn ofalus.

Y dyddiad cau ar gyfer cael eich maniffesto wedi'i uwchlwytho i'n gwefan yw 12pm ar y dydd Gwener ar ôl i'r cyfnod Sefyll ddod i ben. Mae yna amrywiaeth o gwestiynau sy'n ymdrin â'r prif faterion sy'n effeithio ar fyfyrwyr, y nodweddion personol y byddwch chi'n cynnig i'r rôl a sut y byddwch chi'n cyfrannu at y tîm swyddogion ehangach. Mae Swyddogion Llawn-amser hefyd yn ateb cwestiwn yn seiliedig ar bolisi y mae'n rhaid iddynt weithio tuag ato. Cofiwch mai'r nod yw cyfleu'ch neges mewn ffordd glir a chryno, nid defnyddio'r uchafswm geiriau.

- **Sym, penodol ac wedi'i strwythuro** – Cofiwch gynnwys atebion diriaethol sy'n disgrifio'r hyn rydych chi am ei wneud; meddyliwch am broblemau sy'n gyffredin i fyfyrwyr, a sut fydddech chi'n eu datrys. Byddwch yn benodol yn hytrach nag yn amwys ynglŷn â beth sy'n bwysig i chi a'r hyn rydych chi'n sefyll drosto. Cofiwch ei gyflwyno ar ffurf eglur a di-ffwdan, sy'n gweddu i weddill eich brand.
- **Adborth** – Mynnwch adborth gan aelodau o'r Tîm Swyddogion Llawn-amser, a hefyd gan fyfyrwyr sydd ddim o reidrwydd yn gwybod llawer am Undeb y Myfyrwyr. Mae angen i chi sicrhau bod pawb yn gallu deall eich syniadau, a'u bod yn eu hoffi.
- **Dysgwch** – Gwnewch yn sicr eich bod yn gwbl gyfarwydd â chynnwys eich cyhoeddusrwydd! Bydd hyn o gymorth pan fyddwch chi'n siarad â myfyrwyr. Os yw eich ffrindiau'n eich helpu chi pan fyddwch chi'n mynd o amgylch y lle'r siarad â myfyrwyr, gwnewch yn sicr eu bod nhw'n gwybod beth sydd yn y ddogfen yn ogystal!

Clybiau Chwaraeon a Chymdeithasau

Gall Clybiau Chwaraeon a Chymdeithasau gynnig cefnogaeth i chi, er mai dyma un o'r rhesymau lleiaf tebygol sydd gan bleidleiswyr dros eu dewis o ymgeisydd. Serch hynny, gallai fod yn syniad i chi drafod â nhw er mwyn eu hannog i gefnogi eich ymgyrch. Ni allwch ddefnyddio arian neu adnoddau Clybiau a Chymdeithasau i hyrwyddo eich ymgyrch.

Rhaid i unrhyw hyrwyddo gael ei wneud yn unol â phrosesau arferol y Clwb neu Gymdeithas, a rhaid i chi fod yn gallu dangos tystiolaeth o hynny os oes rhywun yn gofyn am hynny - mae'n fanteisiol i chi sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn.

- **Cysylltu** – byddwch yn rhagweithiol, cysylltwch â chlybiau a chymdeithasau, gan ofyn i gael cwrdd â nhw/eu pwyllgorau ar Teams i drafod eich polisiau a sut gallwch chi roi cefnogaeth iddyn nhw os ceu'ch eich ethol.



- **Ymchwil** – cyn cwrdd â chlwb neu gymdeithas, gwnewch rywfaint o ymchwil i ganfod beth sy'n bwysig iddyn nhw, a sut mae hyn yn berthnasol i'r rôl rydych chi'n mynd amdani; dylech wastad geisio clymu hyn i'ch maniffesto.
- **Clybiau a Chymdeithasau allweddol** – mae rhai clybiau neu gymdeithasau'n fawr iawn, felly mae ganddyn nhw bwyllgorau mawr, ac o'r herwydd cryn lawer o bobl i gysylltu â nhw o bosib. Gallwch hefyd gael hyd i wybodaeth ar gyfer cysylltu â chlybiau a chymdeithasau ar wefan UMABer. Chwiliwch am y clybiau chwaraeon a'r cymdeithasau sy'n berthnasol i'ch rôl, e.e. Llesiant i gysylltu â chymdeithasau lles neu ymgyrchu, gan ei bod yn bosib y bydd gan y myfyrwyr hyn fwy o ddiddordeb ynddoch chi a'ch ymgyrch.
- **Cyfweliadau/sesiynau holi** – os ydych chi'n cael gwahoddiad i wneud cyfweliad neu i fynychu sesiwn holi gyda chymdeithas, gwnewch yn sicr eich bod yn mynd, gan y bydd yn ffordd i ennill pleidleisiau ac yn gam tuag at ddechrau sefydlu perthynas â nhw. Nid oes rhaid iddynt fod yn rhy ffurfiol a gallant fod yn ffordd wych o ledaenu'ch brand.

Baneri

Os ydych chi am wneud baner, rydyn ni'n awgrymu eich bod yn mynd ati'r wythnos cyn bydd pleidleisio'n dechrau. Er mwyn osgoi cael eich baner wedi'i dwyn, ei difrodi gan y tywydd (rydyn ni yn Aberystwyth, wedi'r cyfan!), efallai y byddai'n syniad ei thynnu i lawr dros nos, a'i hail-osod yn y bore. Eleni ni fydd baneri mewn adeiladau ar y campws, ond nid yw hynny'n golygu na allwch chi roi rhywbeth i fyny y tu allan i'ch tŷ myfyrwyr!

Yn yr un ffordd, os oes gennych chi ffrindiau sy'n byw mewn ardal sy'n llawn myfyrwyr, beth am ofyn iddyn nhw ei gosod tu allan i'w tŷ? Cofiwch sicrhau eich bod yn dilyn yr holl ganllawiau Covid perthnasol wrth wneud hynny.

Crysau-T

Fe allech chi archebu crysau-T ar-lein i chi ac aelodau'ch aelwyd - efallai y gallech chi eu gwisgo wrth fynychu digwyddiadau cymdeithasol clwb / cymdeithas neu unrhyw oriau dysgu ar gamera. Gall crysau-T fod yn ffordd dda o hyrwyddo eich enw a dangos y gefnogaeth sydd gennych chi, ond gwnewch yn sicr eu bod yn gweddu i'ch brand!

Diwrnod arferol i ymgyrchydd

- **8/8.30am** – gwnewch yn sicr eich bod wedi cael rhywfaint o frechwast fel y byddwch yn llawn egni ar gyfer y diwrnod sydd o'ch blaen. Cynlluniwch pa glybiau a chymdeithasau allweddol rydych chi am gysylltu â nhw'r diwrnod hwnnw.
- **9-5pm** - gallwch weiddi allan ar ddiwedd unrhyw sesiynau addysgu byw sydd gennych chi; hefyd anfon negeseuon at fyfyrwyr, anfon e-byst, creu fideos a rhannu pyst ar gyfryngau cymdeithasol.
- **5pm** – tynnwch y faner i lawr; mae hyn yn ddewisol, ond mae risg yn perthyn i'w gadael i fyny; fodd bynnag os ydych chi'n credu y bydd llawer o bobl yn ei gweld wrth fynd am dro neu fynd i redeg, yna gosodwch hi mewn man sy'n weladwy.
- **5pm-Hwyr (8/9pm)** – gwnewch yn sicr eich bod yn bwyta gydol y diwrnod, ac yn arbennig ar ryw adeg ar fin-nos. Yna efallai mynd i ddigwyddiadau cymdeithasol rhithwir, ymuno â sesiynau Cwrdd â'r Ymgeiswyr cyn cyfarfodydd Parth neu roi hwb i rai pyst ar gyfryngau cymdeithasol.



- **10pm-8am** CYSGU - gwnewch yn sicr eich bod yn cysgu am O LEIAF 8 AWR BOB NOS. Peidiwch ag aros yn effro tan yr oriau mân yn gor-feddwl am gyfryngau cymdeithasol; ceisiwch ymlacio a gorffwys fel y gallwch ail-afael yn yr ymgyrch drannoeth!

Cyfathrebu Sylfaenol am yr Etholiadau - Dechrau Pleidleisio

- **Negeseuon testun** – anfonwch negeseuon testun at eich ffrindiau i gyd yn eu hatgoffa i bleidleisio a gofyn iddyn nhw annog 10 o bobl i bleidleisio i chi. Os yw 10 ohonyn nhw'n gwneud hyn, dyna 100 o bleidleisiau!
- **Facebook** – gosodwch neges ar eich tudalen yn rhoi cyfarwyddiadau manwl ynglŷn â sut i bleidleisio, a gofynnwch i'ch ffrindiau i gyd hoffi a rhannu hwn.
- **Cofiwch elfennau allweddol eich ymgyrch** - pleidleisiwch drosoch chi #1, os na, yna #2, y prif reswm eich bod chi'n sefyll allan fel ymgeisydd, pryd a ble i bleidleisio

Cyfathrebu Sylfaenol am yr Etholiad - Yng Nghanol y Pleidleisio

- **Neges Facebook** – anfonwch neges fawr at tua chant o bobl yn dweud "Peidiwch ag anghofio pleidleisio, a dwedwch wrth eich ffrindiau" tua hanner ffordd trwy'r cyfnod pleidleisio.
- **Gwirio** – cysylltwch â rhai o'r bobl yr anfonoch chi neges destun atyn nhw ynghynt yn yr wythnos i weld os ydyn nhw wedi pleidleisio, ac os oes unrhyw beth y gallwch chi ei wneud i'w darbwylo ymhellach.

Cyfathrebu Sylfaenol am yr Etholiad - Diwrnod Olaf y Pleidleisio

- **Atgoffa pobl am y Tro Olaf** – anfonwch negeseuon i atgoffa pobl am mai dyma eu cyfle olaf i bleidleisio; cofiwch fod yr un gwerth ar bleidlais bum munud ar ôl i'r blwch pleidleisio agor ac un bum munud cyn iddo gau.
- **Cydnabod eich cefnogwyr** - treuliwch amser yn talu teyrnged i'r rheiny sydd wedi eich cefnogi neu wedi ymgyrchu ar eich rhan, ond peidiwch â gadael i hyn darfu ar yr ymgyrchu, defnyddiwch hyn i annog eraill.

Hunan-ofal

Ni allwn or-bwysleisio hyn; mae edrych ar ôl eich iechyd a'ch llesiant yn ALLWEDDOL!

Gwnewch yn sicr eich bod yn cael 8 awr o gwsg, peidiwch ag aros yn effro'n hwyr ar Facebook - os ydych chi wedi trefnu eich pyst ymlaen llaw, ni ddylai hyn for yn angenrheidiol. Ceisiwch ddatgysylltu o'r etholiad ac ymlacio rhywfaint. Ceisiwch wneud hyn yn drefn arferol am yr wythnos a chofiwch fwyta'n iawn - fe allech chi wneud prydau ymlaen llaw a'u rhewi a pharatoi pecyn cinio ar gyfer pob dydd o'r wythnos bleidleisio'r penwythnos blaenorol. Gwnewch yn sicr eich bod yn cael rhywbeth i frecwast, hyd yn oed os mai dim ond pethau y gallwch gydio ynddynt a'u bwyta ar eich ffordd i'r campws. Os ydych chi'n lwcus, efallai y gallech chi ofyn i ffrind neu gyd-letywr goginio ar eich cyfer, felly mae'n werth gofyn!

Byddwn yn darparu pecynnau llesiant ar gyfer pob ymgeisydd, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n eu defnyddio!



Cynlluniwch ar gyfer ennill yr etholiad, ond byddwch hefyd yn barod i gollu. Mae sefyll etholiad yn brofiad anhygoel, a byddwch yn dysgu ac yn datblygu sgiliau y gallwch fynd gyda chi ar gam nesaf y daith, boed hynny fel swyddog neu ym myd gwaith.

O ddweud hynny, gobeithio y cewch chi amser anhygoel a phob lwc!



Atodlen 1: Sut i amlygu pyst ar Facebook

1. Cliciwch ar *Advert Manage* neu *Create Advert* ar y chwith o'ch proffil.
2. Dewiswch *Brand Awareness* neu *Reach* fel eich amcan marchnata a chrëwch gyfrif hysbysebu.
3. Dewiswch eich **cynulleidfa**:
 - Lleoliad: Aberystwyth (bydd y rhan fwyaf o'ch pleidleiswyr yn Aberystwyth)
 - Oedran a Rhywedd: Fe gewch chi ddewis!
 - Targedu manwl: Pobl sydd â diddordeb yn Undeb y Myfyrwyr neu yn Aberystwyth, a.y.b.
4. Dewiswch Eich Cyllideb: 'Dyddiol' yw cost bob 24 awr, neu gallwch ddewis cyllido am yr holl ymgyrch.
5. Dewiswch Eich Amserlen: Efallai mai'r peth gorau yw gosod dyddiad cychwyn a gorffen er mwyn arbed eich arian!
6. Dewiswch y dull mwyaf effeithiol ar gyfer Hysbysebu:
 - Postiwch eich Negeseuon: Anfonwch nhw at y bobl hynny sy'n fwyaf tebygol o bostio a rhannu.
 - Argraffiadau: Ffrydiau newyddion cymaint o bobl â phosib
 - Cyrhaeddiad Unigryw Dyddiol: Cynifer o WAHANOL ffrydiau newyddion â phosib
7. Dewiswch y dull mwyaf effeithiol ar gyfer Hysbysebu: Cadwch hwn yn awtomatig.
8. Dewiswch eich Amserlen ar gyfer Hysbysebu: Gallwch amseru pyst ar gyfer yr amserodd rydych chi'n credu fydd fwyaf effeithiol. Gallwch fwrw golwg ar gynllun yr Undeb i weld pa bryd fyddwn ni'n anfon e-byst a pha bryd roedd pobl fwyaf tebygol o bleidleisio llynedd.
9. Dewiswch y post rydych chi am ei hybu ac ychwanegwch fanylion eich cerdyn, a dyna'r cyfan!
10. Cofiwch: Nid caniatáu i chi delweddu mwy na 20%

yw Facebook yn hyrwyddo sy'n cynnwys o destun. Ewch i

https://www.facebook.com/ads/tools/text_overlay i wirio os yw eich post yn iawn!

